

RHEOLAU COFEBION



Rheolau

Yn ymgythio i'r cymunedau lleol a'u bod yn gallu gwyboda'r holl wybodaeth sydd eu hangen i'w helpu i'w hysbysu a'u hysbysu. Yn ymgythio i'r cymunedau lleol a'u bod yn gallu gwyboda'r holl wybodaeth sydd eu hangen i'w helpu i'w hysbysu a'u hysbysu. Yn ymgythio i'r cymunedau lleol a'u bod yn gallu gwyboda'r holl wybodaeth sydd eu hangen i'w helpu i'w hysbysu a'u hysbysu.

Rheolau

Yn ymgythio i'r cymunedau lleol a'u bod yn gallu gwyboda'r holl wybodaeth sydd eu hangen i'w helpu i'w hysbysu a'u hysbysu. Yn ymgythio i'r cymunedau lleol a'u bod yn gallu gwyboda'r holl wybodaeth sydd eu hangen i'w helpu i'w hysbysu a'u hysbysu. Yn ymgythio i'r cymunedau lleol a'u bod yn gallu gwyboda'r holl wybodaeth sydd eu hangen i'w helpu i'w hysbysu a'u hysbysu.

Rheolau mynwent

Gwneir y rheoliadau canlynol gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer rheolaeth pob Mynwent sydd yn ei ofal.

“y Cyngor” sef Cyngor Sir Ddinbych

“y fynwent” sef unrhyw fynwent a thir claddu a ddarperir gan y Cyngor o fewn Cyngor Sir Ddinbych.

“Cyfarwyddwr Corfforaethol - Amgylcheddol” – sef y person a benodir i fod yng ngofal y Fynwent.

“y swyddog mynwentydd” – sef y person yng ngofal gweinyddiaeth y fynwent o ddydd i ddydd.

“bedd” – sef man claddu a ffurfiwyd yn y tir trwy ei gloddio hefo neu heb unrhyw wal allanol o friciau neu unrhyw leinin ffug.

“y Contractwr” – sef unrhyw Saer Maen neu Gontractwr a gyflogwyd i wneud gwaith ar gofebau o fewn y fynwent .

“BRAMM” sef “The British Register of Accredited Memorial Masons”

“NAMM” sef “National Association of Memorial Masons”

1. Rheoliadau mynwent.

Rhaid darllen y Rheoliadau Cofebau ar y cyd â'r Rheoliadau Mynwent (5ed Gorffennaf 1999) a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ddinbych a'r amodau hynny sy'n berthynol i Gofebau.

2. Negeseuon.

Caiff unrhyw orchymyn / cyfarwyddiadau a roddir dros y ffôn eu derbyn ar risg y person sy'n rhoi cyfarwyddiadau o'r fath. Ni fydd y Cyngor Sir yn gyfrifol am unrhyw gamddealltwriaeth a allai godi.

3. Hawl claddu

Rhaid i bob cais a dderbyniwyd gael ei lofnodi gan yr “Yr un sy'n dal yr holl hawliau claddu”, neu yn ôl cais ac i fodloni'r swyddog mynwentydd .

Bydd trosglwyddo “Yr holl hawliau claddu / The Exclusive Right of Burial” yn bosibl yn unig yn ystod bywyd daliwr yr hawliau hyn.

Caiff pob gohebiaeth ei drin gan Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych.

4. Beddau heb yr holl hawl i gladdu.

Ni chaniateir codi cofebau.

5. Cael gwared o sbwriel

Rhaid i seiri maen gael gwared o unrhyw sbwriel, slabiau etc o'r safle a gadael y safle yn lan a thaclus bob amser. Rhoddir dirwy os na wneir hyn

6. rhoddion

Mae'r Cyngor Sir yn gwahardd rhoi rhoddion i unrhyw un o'i gyflogedig .

7. symud cofebion tros dro.

Os bydd angen symud cofeb oddi ar fedd cyfagos, oherwydd bod raid, i agor y bedd bydd y trefnwr angladdau a benodwyd i agor y bedd yn talu cost symud ac ail godi'r gofeb gyfagos.

8. oriau agor

Gwanwyn / Haf - 9.a.m. – 4.p.m. dydd Llun hyd ddydd Gwener.

Hydref / Gaeaf- 9.a.m. - 3.30.p.m. dydd Llun hyd ddydd Gwener.

Ni chaniateir unrhyw waeth dydd Sadwrn / dydd Sul neu ar Wyl y Banc .

9. Lawnt mynwent

Caiff y fynwent ei chadw fel mynwent lawnt .

10. cofrestru seiri maen

O 31 Rhagfyr, 2007, bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn i bob Saer Maen sy'n bwriadu gweithio ym mynwentydd Cyngor Sir Ddinbych gael trwydded "BRAMM" lawn a thrwydded gosodwr.

11. Rheolau am gofebau.

(a) caniateir cofebau o fath cerrig bedd yn unig, a dim ond ar feddi sydd hefo holl hawliau claddu.

(b) bydd y gofeb yn un sydd o ran math neu ffurf yn un a gymeradwyir gan y Cyngor .

(c) rhaid cael caniatâd gan y Swyddog Mynwentydd os dymunir bod yn wahanol i'r uchod.

(d). Rhaid anfon cais ar y ffurflen gais briodol a'r ffi berthnasol at y Swyddog Mynwentydd.

(e) rhaid i'r cais nodi enw'r saer maen, y cod ymarfer, system angori i'r tir a rhif cofrestru hefo BRAMM. Ni roddir caniatâd heb y wybodaeth yma .

(f). Dylid cael llofnod "Daliwr yr holl hawliau claddu", neu ar ôl ymgynghori hefo'r swyddog mynwentydd, prawf o hawliau i foddhau'r swyddog mynwentydd.

(g) rhaid cael gwybodaeth / llun o'r gofeb a'r arysgrif hefo'r cais.

Ni roddir caniatâd os na lenwir y cais yn llawn hyd foddhad y swyddog mynwentydd.

12. Manyleb ar gyfer Cofebion

Mae pob carreg goffa i fod â rhif y bedd ac enw'r saer meini coffa wedi'u harysgrifennu ar y cefn mewn ffigurau sydd heb fod yn llai na 2.54 cm (1") o uchder.

Bydd y Cyngor yn gwrthod unrhyw gofeb na fydd yn dal bod yn y tywydd yn ddi-dor, ac ni fyddir yn caniatáu codi cofebion a wneir o garreg artiffisial, terracotta, tsieni, porslen neu unrhyw ddefnydd arall sydd, ym marn y Cyngor yn anaddas neu'n anghydnaws â'i amgylchoedd.

Mae'n ddealliedig yn gyffredinol fod pob croes bren yn cael ei chodi dros dro gyda chofeb addas i gymryd ei lle.

Maint mwyaf (uwch y tir) ar y bedd yw 1.07m (3' 6").

Uchder mwyaf (uwch y tir) ar feddi lludw yw 0.69m (2' 3").

Croes i'w wneud o bren caled.

Pobl joint yn un hefo Dowell/Sgriw.

Y groes i gael ei farneishio.

(d). Rhaid codi pob cofeb yn ôl rheoliadau BRAMM, a dilyn cod ymarfer NAMM (Supporting British Standard 8415).

13. Uchder Cofebion

(a)

Nid yw uchder cyfan cofebion yn cynnwys y gwaelod, ar gyfer beddi a brynwyd, i fod yn fwy na thair troedfedd chwe modfedd (1.07m).

(b)

Nid yw'r uchder cyfan i gofebion yn cynnwys y gwaelod, ar gyfer lleiniau Lludw, i fod yn fwy na dwy droedfedd a thair modfedd (0.69m).

(c)

Ym Mynwent Dinbych, hyd nes fo'r llain bresennol yn llawn, mae cofebion ar leiniau Lludw i'w cyfyngu i'r math trionglog yn unig

14. Cynnal a Chadw Cofebion

Mae pob cofeb neu garreg fedd i'w chadw mewn cyflwr da gan berchennog yr Hawl Claddu Neilltuedig neu deulu.

Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw anaf neu ddifrod a wneir i, neu gan, unrhyw gofeb drwy unrhyw achos bynnag.

15. Symud cofebion

Ble mae angen symud unrhyw gofeb ar gyfer gwneud y gwaith o gladdu mewn unrhyw fedd, mae perchennog y weithred i gael y gwaith o'i thynnu a'i rhoi yn ôl wedi'i wneud gan eu Saer Meini eu hunain yn syth, i foddhad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Amgylchedd neu swyddog arall a awdurdodwyd ganddo.

Mae unrhyw gofeb neu ran ohoni i'w thynnu oddi ar fedd a'i chludo oddi ar y safle a'i storio gan y Saer Meini a gyflogwyd.

15. Gwaith ar gofebion

Ni fydd dim naddu ar gofebion, ac eithrio arysgrif ychwanegol sydd i'w roi ar gofebion sydd eisoes wedi'u codi, yn cael ei ganiatáu o fewn terfyn y fynwent neu'r dynesfeydd ati. Mae pob gwaith i'w wneud yn y fath fodd fel ag i osgoi difrodi'r ffyrdd neu'r rhodfeydd, ac mae'n rhaid i'r Saer Meini sy'n ymgymryd â'r gwaith gael gwared â'r holl sbwriel, 'nialwch a cherrig sydd ar ôl wedi unrhyw waith codi neu adfer yn ddiymdroi.

16. Arfer gweithio

Mae matiau, estyllod, planciau neu gynfas i'w defnyddio i warchod y glaswellt rhag difrod, a rhaid i unrhyw niwed iddo gael ei gywiro'n ddiymdroi gan y bobl sydd wedi'i achosi.

Rhaid i waith o bob math gael ei wneud yn ddi-fwlch a'i gwblhau gyda byrder dyledus, a heb achosi unrhyw aflonyddiad neu annifyrrwch i unrhyw berson arall yn y Fynwent. Tra bo angladd yn bresennol yn y fynwent, mae angen parch dyledus a disgresiwn, ac mae gwaith i'w stopio os bydd angen os yw'n agos iawn i'r angladd hyd nes bydd y galarwyr wedi gadael y fynwent.

Nid oes yr un gofeb i'w chodi hyd nes bydd y ddaear a aflonyddwyd wedi setlo'n ddigonol.

17. Hawliau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio'r Rheolau hyn o bryd i'w gilydd.

Mae'r Rheolau hyn i'w darllen ar y cyd â Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 ac maent i ffurfio rhan o'r Hawl Claddu Neilltuedig. Y safle ar gyfer pob cofeb i fod yn ddarostyngedig i orchmynion, Deddfau Lleol a Rheoliadau'r Cyngor.